




BETH YW RÔL Y RHIANT LYWODRAETHWR?

- Etholir rhiant lywodraethwyr fel cynrychiolwyr buddiannau rhieni sydd â phlant yn mynychu'r ysgol ar y pryd



- Mae'r rôl gwirfoddol hon yn rhan graidd o'r Corff Llywodraethol ac yn apelio at unrhyw riant sydd am gael effaith gadarnhaol ar addysg a bywyd ysgol eu plentyn a phlant eraill
- Daw rhieni lywodraethwyr cyfoeth o brofiad a gwybodaeth, gan gyfrannu at redeg yr ysgol yn llwyddiannus
- Mae'r llywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu syniadau a strategaethau i roi'r syniadau hynny ar waith, ac hefyd yn sicrhau atebolrwydd a chynnig adborth adeiladol i arweinwyr ar eu perfformiad
- Yng nghyfarfodydd y corff, anogir y rhiant lywodraethwr i rannu barn sy'n cynrychioli buddiannau rhieni'r ysgol
- Pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud, mae'n bwysig bod llywodraethwyr unigol yn dyfarnu drostynt eu hunain pan yn cyfrannu at benderfyniad y corff llywodraethu
- Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol i sicrhau bod y rhiant lywodraethwr yn deall ei rôl ac eu bod yn barod ac yn hyderus i gymryd rhan

“Dw i'n mwynhau gwneud rhywbeth cadarnhaol ar gyfer y gymuned sy hefyd yn cael effaith gadarnhaol or addysg fy mhlant fy hun.”

Tom Mallen – Rhiant Lywodraethwr

BETH YW HYD TYMOR RÔL Y RHIANT?

- Y tymor arferol yw 4 blynedd
- Gall wasanaeth barhau hyd nes diwedd y cyfnod, hyd yn oed os yw'r plentyn wedi gadael yr ysgol

FAINT O AMSER SY ANGEN EI ROI?

- Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod yn ffurfiol chwe gwaith yn ystod y flwyddyn, am tua awr/awr a hanner
- Mae rhagor o gyfarfodydd is-bwyllgorau (tua dau yr un am tua hanner awr), byddwch yn eistedd ar ambell is-bwyllgor
- Byddwch yn mynychu'r ysgol ambell waith yn sgil eich rôl

SUT MAE ENWEBU AC ETHOL?

- Enwebwch riant (chi eich hun neu rywun arall) gan [glicio yma](#)
 - Rhaid cael eilydd i'r enwebiad
 - Rhaid cael caniatâd y person rydych yn ei h/enwedbu
 - Gwnewch hyn erbyn **12:00 Dydd Gwener, 17^{eg} Rhagfyr 2021**
- Os bydd mwy na dau enwebiad, bydd gofyn i'r enwebeion ysgrifennu datganiad personol a chynhelir etholiad

Os hoffech mwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni yn yr ysgol